



CYNLLUNIAU MARCIO TAG

HAF 2024

**TAG
CYMRAEG IAITH GYNTAF - UNED 5
SAFON UWCH (NEWYDD)
1000N50-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

CYMRAEG: IAITH GYNTAF

UNED 5

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau
(*papur ysgrifenedig*)**

CYNLLUN MARCIO HAF 2024

1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun, 1(a) a'r un modd i 1(b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

- (a) Disgwylir i'r ymgeiswyr allu darllen a deall orgraff a gramadeg y testun gwreiddiol er mwyn ateb yr adran hon.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu deall ystyr, cynnwys a rhediad storïol y dyfyniad a chyflwyno dehongliad trefnus, cryno ohono megis yr hyn a geir yn y golofn gyntaf.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu nodi eu bod wedi deall arwyddocâd syniadau cyd-destunol sydd yn y dyfyniad, megis y rhai a geir yn y ddwy golofn olaf.

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
<p>Gyrfa Bendigeidfran negeswyr i nodi telerau'r iawndal i Matholwch a sut na all gosbi Efnysien am ei anfadwaith.</p>	<p>Mae iawndal Bendigeidfran - ceffyl iach am bob un a ddifethwyd, gwialen arian a phlât aur - yn un hael. Yn ôl Rhiannon Ifans roedd talu iawn yn <i>'syniad moesol pwysig'</i>. Mae'n ffordd o adfer y sefyllfa wreiddiol. Gwneir hyn drwy ad-dalu'r ceffylau i'r Gwyddelod ond rhoir tâl ychwanegol am y chwithdod a achoswyd i Matholwch drwy'r ymdeimlad o warth. Yn ôl Cyfraith Hywel Dda roedd maint yr iawndal yn cael ei fesur yn ôl statws cymdeithasol y person a gafodd ei sarhau. Yn llawysgrifau lorwerth (sef fersiwn Gwynedd o'r cyfreithiau) nodir mai'r iawndal am sarhau brenin Gwynedd oedd cant o wartheg am bob cantref o'i eiddo, a tharw â chlustiau cochion am bob cant o wartheg, a gwialen aur cyhyd ag ef ei hun ac mor drwchus â'i fys bach, ynghyd â phlât aur cyfled a'i wyneb ac mor drwchus ag ewin amaethwr sydd wedi gweithio am saith mlynedd. Mae adlais o'r iawndal hwn yn yr hyn a gaiff Matholwch. Drwy roi'r iawndal hwn i frenin Iwerddon mae Bendigeidfran yn cydnabod statws uchel Matholwch. Caiff wialen arian yn hytrach nag un aur fel y byddai brenin Gwynedd yn ei gael ond caiff blât aur.</p> <p>Drwy roi ceffylau iach i Matholwch mae Bendigeidfran yn cydnabod pwysigrwydd yr anifail ac o ganlyniad ddyfnder y sarhad ar Matholwch - <i>'Cwbyl waradwydd a geueis'</i>. Mae'r ffaith iddo fethu amddiffyn ceffylau'r Gwyddelod rhag ymosodiad tra'r oeddynt ar ymweliad â'i deyrnas ef yn sarhad ar Bendigeidfran hefyd. Roedd arwyddocâd i'r ffaith i Efnysien benderfynu difrodi ceffylau Matholwch. Roedd ceffyl yn symbol o gryfder. Byddent yn pwysu tunelli, yn gryf gan y byddai'n rhaid iddynt allu cario marchog canoloesol yn ei arfwisg drom i ryfel. Roedd hefyd <i>'yn symbol o ffrwythlonedd ac o allu'r byd i atgenhedlu'</i> fel y dywed Rhiannon Ifans. Mae'r ffaith bod ceffylau gwynion wedi eu cerfio ar sawl bryn yn dangos pwysigrwydd y ceffyl i'r Celtiaid.</p>	<p>Cyflwyno Bendigeidfran yr iawndal am lygru ceffylau Matholwch. Cyfeirio y mae yma at weithred fyrbwyll Efnysien yn difetha ceffylau brenin Iwerddon pan glyw iddo briodi Branwen. Mae'n torri eu gweflau, eu clustiau, eu cynffonau a'u hamrannau fel nad yw'n bosibl eu defnyddio eto.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
	<p><i>Manawydan uab Llyr</i> – Mae Manawydan yn frawd cyfan i Bendigeidfran a Branwen. Mae'r ffaith iddo gael ei ddewis fel cymodwr yma yn awgrymu cymeriad doeth a chraff. Eistedda wrth ochr Bendigeidfran yn y wledd, sy'n awgrymu ei bwysigrwydd i'r brenin.</p> <p><i>Hefeydd Hir</i> - Mae'r epithet yn awgrymu ei fod yn ddyn tal.</p> <p><i>Unig Glew Ysgwydd</i> – Mae '<i>Glew Ysgwydd</i>' yn awgrymu ei allu milwrol wrth fod ganddo '<i>ysgwydd gadarn</i>' neu '<i>darian gadarn</i>'.</p> <p><i>y may brawd un fam</i>' – Cyfeirio at Efnysien y mae yma. Roedd ef a Bendigeidfran o'r un fam, Penarddun. Llŷr oedd tad Bendigeidfran ond Euroswydd oedd tad Efnysien. Pwysleisia'r cwlwm teuluol sy'n atal Bendigeidfran rhag cosbi ei hanner brawd fel y dylai.</p> <p>Mae Bendigeidfran yn cynnig trefnu heddwch yn ôl dymuniadau Matholwch. Dengys hyn pa mor bwysig mae'n ystyried y berthynas rhwng Iwerddon ac Ynys y Cedyrn. Fel y dywed yr Athro Sioned Davies, '<i>Bendigeidfran y gwleidydd a ddaw i'r amlwg yma, brenin sydd am agor deialog a chynnal trafodaeth.</i>'</p>	<p>Mae Matholwch hefyd yn un o'r saith sy'n dychwelwyd o Iwerddon wedi'r frwydr olaf. Ef yw prif gymeriad trydedd gainc y Mabinogi a chaiff ei henwi ar ei ôl. Rhestrir ef mewn dau o Drioedd Ynys Prydain.</p> <p>Caiff Hefeydd Hir ac Unig Glew Ysgwydd eu gadael yn Ynys y Cedyrn i'w hamddiffyn pan aiff Bendigeidfran i Iwerddon i achub Branwen. Lleddir y ddau gan Caswallon fab Beli pan oresgynna hwnnw'r ynys drwy dwyll.</p> <p>Er bod Efnysien yn cael ei gydnabod fel '<i>catalydd</i>' i holl ddigwyddiadau'r chwedl gan yr Athro Sioned Davies, ef hefyd sy'n gyfrifol am ddod a'r brwydro i ben drwy dorri'r Pair Dadeni.</p> <p>Gwelir yr un nodwedd wrth i Bendigeidfran dderbyn yr amodau heddwch a gynigir gan Matholwch wedi iddo gyrraedd Iwerddon. Gwna hyn ar gais Branwen er mwyn cadw'r heddwch rhwng y ddwy wlad.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
<p>Wedi clywed y neges ymgynghora Matholwch â'i swyddogion sy'n ei annog i dderbyn y cynnig rhag dioddef mwy o gywilydd. Deuant i'r llys ac ailgychwyn y gwledda.</p>	<p>Mae <i>'cymryd cyngor'</i> neu ymgynghori'n digwydd yn aml yn y Mabinogi ac yn dangos y berthynas agos o gyd-ddibyniaeth rhwng brenin a'i swyddogion. Eto gwelir gwahaniaeth mawr yn y ffordd mae'r gydberthynas yma'n digwydd o ystyried Matholwch a Bendigeidfran. Mae Bendigeidfran yn ymgynghori, ond ef sy'n gwneud y penderfyniad terfynol tra bod Matholwch yn cael ei reoli gan ei swyddogion. Cyfeiria'r Athro Sioned Davies ato fel <i>'pyped . . . yn nwylo ei bobl'</i>.</p> <p>Y rheswm bod angen paratoi pebyll yw maint cawraidd Bendigeidfran sy'n ei atal rhag mynd i adeilad.</p>	<p>Gwelir Bendigeidfran yn gofyn am farn eraill, fel pan ymgynghora ynglŷn â rhoi Branwen i Matholwch, ynglŷn â threfniadau gwarchod Ynys y Cedyrn tra ei fod yntau yn lwerddon ac ynglŷn â derbyn amodau heddwch. Ond derbyn cyngor a'i ystyried cyn gwneud penderfyniad mae Bendigeidfran, nid cael ei berswadio na'i ddylanwadu gan y cyngor hwnnw. Gweithredu ar gyngor ei wŷr mae Matholwch yn gyson. Ceir enghreifftiau niferus yn ystod y chwedl e.e. ei wŷr sy'n ei berswadio bod y difrod a wnaeth Efnysien i'w geffylau yn fwriadol ac y dylai adael Ynys y Cedyrn cyn y dyfyniad hwn, <i>'y urodyr maeth a'r gwyr nesaf gantaw'</i> sy'n ei berswadio i yrru Branwen i'r gegin fel cosb am sarhad Efnysien, ei wŷr sy'n ei gyngori ymhellach i atal unrhyw un rhag teithio i Gymru ac i garcharu ymwelwyr fel na ddaw neb i wybod am y gosb. Yna, wedi i Bendigeidfran ddod i lwerddon i achub Branwen caiff Matholwch ei ddylanwadu gan ei wŷr i ffoi - <i>'kilyaw drwy Linon . . . a gadu Linon y rot ac ef, a thorri y bont yssyd ar yr auon.'</i></p> <p>Manteisia Matholwch ar hyn wrth geisio trefnu heddwch gyda Bendigeidfran yn lwerddon. Adeilada dŷ i'w anrhydeddu gan nad oes modd ei gynnwys mewn adeilad. Gwelir twyll y Gwyddelod wedyn wrth iddynt osod sach ar bob un o'r can colofn o fewn y tŷ hwnnw sy'n cynnwys milwr arfog yn barod i ymosod.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
	<p>Mae'r ffaith bod cynllun lle'r eisteddai pawb yn adlewyrchu'r arferiad yn ôl y llyfrau cyfraith fod lle'r eisteddai rhywun wrth y bwrdd yn adlewyrchu statws yr unigolyn.</p>	<p>Yn y disgrifiad o'r wledd briodasol ar ddechrau'r stori nodir lle'r oedd pawb yn eistedd – <i>'Dyma sut yr eisteddasant: brenin Ynys y Cedyrn, a Manawydan fab Llŷr o'r naill ochr iddo a Matholwch o'r ochr arall, a Branwen ferch Llŷr gydag yntau.'</i></p>
<p>Pan wêl Bendigeidfran nad oes hwyliau cystal â chynt ar Matholwch ychwanega'r pair at yr iawndal gwreiddiol.</p>	<p>Gwelir Bendigeidfran yn ystyried y sefyllfa yma – <i>'medylyaw'</i> - cyn dod i benderfyniad. Mae ei ymateb yn un cadarnhaol – rhoi'r Pair Dadeni i Fatholwch, er nad yw canlyniadau hynny'n rhai cadarnhaol.</p> <p>Ceir cyfeiriad at Dduw yma er bod y chwedl wedi ei gosod mewn cyfnod cyn Gristnogol.</p> <p>Mae'r Pair Dadeni yn elfen bwysig yn y chwedl hon ac yn y chwedlau Celtaidd yn gyffredinol. Tynnodd ysgolheigion sylw at y cyfatebiaethau rhwng y pair a'r olygfa a ddarlunnir ar Bair Gunderstrup o Ddenmarc lle mae llun dyn anferth ar fin trochi milwr mewn pair. Cyfeiriadau eraill at beiriau mewn llenyddiaeth Gymraeg yw Pair Dyrnwch Gawr na fyddai fyth yn berwi cig i ddyn llwfr ond a ferwai'r cig yn syth i ddyn dewr. Hynodrwydd arbennig y pair hwn fel y noda Bendigeidfran yma yw'r gallu i atgyfodi'r meirw ond na fyddant yn gallu siarad. Yr oedd mudandod yn cael ei gysylltu ag Annwfn. Drwy ymosod ar geffylau Matholwch roedd Efnysien wedi dinistrio'r hyn oedd yn symbol o ffrwythlonedd ac o allu'r byd i atgenhedlu. Drwy roi iddo'r Pair Dadeni mae Bendigeidfran yn adfer y sefyllfa honno.</p>	<p>Mae Efnysien hefyd yn ystyried ac yn <i>'dweud pethau yn ei feddwl'</i> yn ystod y chwedl. Mae'r meddyliau hyn yn nodwedd bwysig o'i gymeriad, ond canlyniadau amrywiol sydd i'r meddyliau hynny fel arfer, fel ei benderfyniad i daflu Gwern i'r tân sy'n arwain at frwydr derfynol rhwng gwŷr Ynys y Cedyrn a gwŷr Iwerddon ond ei benderfyniad i dorri'r Pair Dadeni sy'n arwain at ddiwedd y frwydr honno.</p> <p>Mae sawl eironi yn gysylltiedig â'r Pair Dadeni. Mae'n eironig i Fatholwch dderbyn y Pair Dadeni a ddaeth yn wreiddiol o Iwerddon. Gwelwyd Llasar Llaes Gyfnawid a Chymidai Cymeinfoll ei wraig yn dod a fo o lyn yn Iwerddon. Collodd Matholwch gefnogaeth Llasar drwy dderbyn argymhelliad ei wŷr i gael gwared ohono ef a'i wraig drwy eu gosod mewn tŷ haearn a'u llosgi. Rhoddodd Bendigeidfran loches iddynt a chael y Pair ganddo.</p>

Digwyddiadau	Arwyddocâd	Cyd-destun
	<p>Fel y dywed Rhiannon Ifans <i>'Yn y Pedair Cainc y mae'r talu iawn neu'r gosb bob amser yn ffitio'r ddyled neu'r drosedd . . . Y mae'r Pair Dadeni yn anrheg goruwchnaturiol a fydd yn bywhau a ffrwythloni deiliaid y brenin.'</i></p>	<p>Mae'n eironig hefyd mai rhodd hael Bendigeidfran sy'n cael ei defnyddio i atgyfodi milwyr Iwerddon i ymladd eto yn erbyn gwŷr Ynys y Cedyrn. Gellid dadlau bod rhoi'r Pair i Matholwch yma yn gamgymeriad mawr ar ran Bendigeidfran.</p> <p>Eironig hefyd yw'r ffaith mai Efnysien, y gŵr a fu'n achos i Bendigeidfran roi'r pair i Matholwch sy'n dinistrio'r pair yn y pen draw.</p>

	AA2 – Ymateb i destun
12 - 15	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun • arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol • enghreifftio'n effeithiol wrth ateb
10 - 11	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun • arddangos dealltwriaeth sicr o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • enghreifftio addas a phwrpasol wrth ateb
8 - 9	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau • arddangos dealltwriaeth dda o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • enghreifftio addas wrth ateb
5 - 7	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos peth gwybodaeth am y testun • arddangos dealltwriaeth foddhaol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • cyfeirio ar y testun
3 - 4	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun • cyfeirio at rai elfennau penodol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad • cyflwyno rhai syniadau • cyfeirio at y testun yn achlysurol
0 - 2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.

Aralleirio'r darn yn y papur arholiad – dim mwy na 4 marc.

Aralleirio'r darn a chyfeirio at weddill y chwedl – dim mwy na 7 marc.

- (b) Dylai'r ymgeiswyr ddefnyddio'r dyfyniad yn sylfaen i'w hateb a chyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddyfynnu'n ddeallus er mwyn cefnogi gosodiad neu safbwynt am arwyddocâd y cymeriad yn y chwedl.

Gwobrwyir ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu bod nhw wedi deall dehongliadau ysgolheigion o'r chwedl.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall cysyniadau megis:

- Cred yr Athro Sioned Davies fod y darlun o Bendigeidfran ac yn arbennig o'i gymharu â Matholwch, brenin Iwerddon, yn fodd o amlygu **rhinweddau** y dylai brenin eu cael. *'Felly, trwy gyfrwng cymeriad Matholwch, a thrwy gyfosod â Bendigeidfran, mae'r awdur yn awgrymu rhywbeth ynglŷn â natur brenhiniaeth ac am yr holl gyfrifoldebau sy'n perthyn i'r swydd honno.'*
- Mae'n **wleidydd craff**. Sylweddola'r manteision gwleidyddol allai ddod o uno Iwerddon ac Ynys y Cedyrn drwy briodas wleidyddol Matholwch a Branwen. Derbynia resymeg swyddogion Matholwch am yr uniad *'ef a uyn ymrwymaw Ynys y Kedeyrn ac Iwerdon y gyt, ual y bydynt gadarnach.'* Wedi i Efnysien beryglu'r uniad drwy ddifetha ceffylau Matholwch sylweddola nad oes unrhyw fudd o adael drwgdeimlad rhwng y ddwy genedl: *'nyt oes ymwarded [o]je uynet ef yn anygneuedus, ac nys gadwn'*. Dyma'r rheswm am ei iawndal hael yma - *'ef a geif yn wynepwerth idaw, llathen aryant a uo kyuref [a'e uys bychan] a chyhyt ac ef e hun, a chlawr eur kyflet a'y wyneb.'* Mae'r iawndal hwn bron gyfwerth a'r iawndal y byddid yn ei dalu i frenin Gwynedd, ac felly mae Bendigeidfran yn cydnabod statws uchel Matholwch. Mae hyd yn oed yn cynnig abwyd i Matholwch os nad yw'n fodlon â'r trefniant - *'doet y ymwelet a mi,' heb ef, 'a mi a wna'f y dangneued ar y llun y mynho e hun.'* Mae hyd yn oed yn ychwanegu at yr iawndal pan fo'n synhwyro anfodlonrwydd Matholwch; *'A medyl yaw a wnaeth, bot yn athrist gan yr unben uychanet a gawssei o iawn am y gam.'* Mae'n ddigon sensitif i synhwyro tymer Matholwch. Mae hefyd yn fodlon cymodi i osgoi ymladd pan gyrhaedda Iwerddon i achub Branwen rhag dial y Gwyddelod.
- Mae'n **arweinydd cadarn**. Ef sy'n arwain y trafodaethau yma ac yn nodi telerau'r iawndal yn glir i'r negeswyr eu cyfleu. Gofynna am farn ei wŷr fel y mae Matholwch yn ei wneud yma. Gwna hynny pan ymgynghora ynglŷn â rhoi Branwen i Matholwch, ynglŷn â threfniadau gwarchod Ynys y Cedyrn iddo ef fynd i Iwerddon ac ynglŷn â derbyn amodau heddwch. Ond derbyn cyngor a'i ystyried cyn gwneud penderfyniad y mae Bendigeidfran, nid cael ei berswadio na'i ddylanwadu gan y cyngor hwnnw.
- Mae Bendigeidfran yn **cymryd cyfrifoldeb dros ei weithredoedd** ef a'i deulu. Mae'n **deg**, ac yn wir yn **hael**, ei iawndal i Matholwch wedi gweithred greulon Efnysien i'w geffylau. Mae'n rhoi plât aur iddo er mwyn pwysleisio bod Bendigeidfran yn ei ystyried cystal ag ef ei hun, a'r Pair Dadeni er mwyn adfer y sarhad ar ei allu i atgenhedlu. Mae'n gwneud penderfyniad i beidio â chosbi Efnysien ac mae'n gorfod derbyn y cyfrifoldeb eithaf am hynny drwy'r rhyfel rhwng Iwerddon ac Ynys y Cedyrn ac iddo yntau gael ei daro â gwaywffon wenwynig.
- Dengys **ddoethineb** yn ei benderfyniadau. Gwelir hynny yn benodol yn ei ymateb i Llasar Llaes Gyfnawid a Chymidai Cymeinfoll. Mae Matholwch

yn methu eu rheoli nes gorfod plygu i gynnig ei wŷr i adeiladu tŷ haearn a cheisio eu llosgi nhw a'u teulu. Wedi iddynt ddianc i Ynys y Cedyrn mae Bendigeidfran yn ddigon doeth i ddefnyddio'u cryfderau ac yn rhannu'r teulu er mwyn cryfhau'r deyrnas - *'eu rannu ym pob lle yn y kyuoeth, ac y maent yn lluosauc, ac yn dyrchauael ym pob lle, ac yn cadarnhau y uann y bythont, o wyr ac arueu goreu a welas neb.'* Fel y dywed Yr Athro Sioned Davies, *'Brenin hirben sydd yma, yn troi'r dŵr i'w felin ei hun.'*

- Gwelir Bendigeidfran fel **amddiffynnydd ei deulu a'i bobl**. Nid yw'n meddwl ddwywaith cyn casglu ei fyddin i amddiffyn Branwen yn Iwerddon. Fodd bynnag, mae'n paratoi ar gyfer hynny drwy ofalu gadael saith o farchogion i warchod Ynys y Cedyrn tra ei fod i ffwrdd. Pan gilia'r Gwyddelod dros Afon Llinon a thorri'r bont defnyddia ei fawredd i weithredu fel pont i'w wŷr - *'Nit oes,' heb ynteu, 'namyn a uo penn bit pont. Mi a uydaf pont', heb ef.* Trefna heddwch gyda'r Gwyddelod a thrwy hynny arbed bywyd ei filwyr. Wedi i Efnysien daflu Gwern i'r tân mae Bendigeidfran yn amddiffyn Branwen drwy ei chysgodi rhwng ei darian a'i ysgwydd wrth ymladd. Hyd yn oed ar ôl iddo gael ei glwyfo mae'n dal i amddiffyn ei deulu a'i wŷr wrth gynllunio dyfodol ei deyrnas a pharhau i amddiffyn Ynys y Cedyrn tra bod ei ben wedi'i gladdu *'a'y wyneb ar Freinc ef.'*
- Cyfeiria Yr Athro Sioned Davies at y ffordd yr oedd Gramadegau'r Penceirddiaid yn nodi sut y dylid **moli** brenin: *'Arglwydd a folir o feddiant, a gallu, a milwriaeth, a gwrhydri, a chadernid, a balchder, ac addfwynder, a doethineb, a chymhendod, a haelioni, a gwarder, a hygarwch wrth ei wŷr a'i gyfeillion, a thegwch pryd, a thelediwrwydd corff, a mawrfrydwch meddwl, a mawrhydri gweithredoedd, a phethau eraill addfwyn anrhydeddus.'* Mae'r rhinweddau hyn gan Bendigeidfran.
- Amddiffyn ei deulu y mae Bendigeidfran wrth beidio â chosbi Efnysien am y llanast a wnaeth â cheffylau Matholwch - *'a menegwch pa ryw ŵr a wnaeth hynny, a phan yw o'm anuod inheu y gwnaethpwyd hynny; ac y may brawt un uam a mi a wnaeth hynny, ac nat hawd genhyf i na'e lad na'e diuetha.'* Noda'r Athro Sioned Davies nad yw hanner brodyr yn cael eu crybwyll yn y testunau cyfraith fel arfer ond bod triawd cyfreithiol yn cynnig rheswm pam na allai Bendigeidfran gosbi Efnysien: *'Tri dyn sydd yn gas gan eu cenedl: lleidr a thwyllwr gan na ellir ymddiried ynddynt, a dyn sydd yn lladd dyn o'i genedl ei hun.'* Bydd Bendigeidfran yn talu'n ddrud am ei **anallu i weithredu'n gadarn** gyda'i deulu ei hun gan mai dyma sy'n arwain at y dial ar Branwen sydd yn y pen draw yn arwain at ddifodiant dwy genedl.
- Efallai fod Bendigeidfran hefyd yn **rhy hael neu'n rhy fyrbwyll** yn rhoi'r Pair Dadeni i Matholwch fel rhan o'r iawndal. Mae'r rhodd hon yn cael ei defnyddio yn erbyn gwŷr Ynys y Cedyrn yn y frwydr yn Iwerddon wrth i'r Gwyddelod gael eu hatgyfodi i ymladd eto.
- Tybed hefyd nad yw'n **rhy hygoelus ac yn rhy barod i ymddiried** yn y Gwyddelod wrth iddo dderbyn eu telerau heddwch? A gaiff ei ddallu gan eu cais i'w anrhydeddu drwy adeiladu tŷ iddo? Mae'n wir mai ar gais Branwen mae'n derbyn y telerau, ond efallai bod ei deyrngarwch i'w deulu'n cymylu ei farn fel gwleidydd yma unwaith eto.
- Mae **elfennau o'r brenin delfrydol** yn Bendigeidfran. Mae'n sicr yn amddiffyn ei bobl a'i dylwyth, ond efallai bod ei gais i amddiffyn ei deulu yn pylu'r ddelfryd ar adegau.

	AA2 – Ymateb i destun
12 - 15	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi cymeriadau/themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol • defnyddio dyfyniadau/enghreifftio'n effeithiol
10 - 11	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi cymeriadau/themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd • crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol • arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas a phwrpasol
8 - 9	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau/themâu • crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas
5 - 7	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cymeriadau/themâu • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • defnyddio dyfyniadau/enghreifftio
3 - 4	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gymeriadau/themâu cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • rhesymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun • cyflwyno rhai syniadau • dyfynnu/enghreifftio'n achlysurol
0 - 2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol i 1(a) ac 1(b).

[15]

	AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig
12 - 15	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw • saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen
10 - 11	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw • saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen
8 - 9	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir • cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
5 - 7	<ul style="list-style-type: none"> • adnoddau iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon yn briodol • dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno'r gwaith • arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen
3 - 4	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol • dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno'r gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen
0 - 2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig.

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymgeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.

Asesiad Synoptig

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 1 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: e.e. dadansoddi cymeriadaeth / themâu a defnyddio iaith ysgrifenedig. Disgwylir iddynt hefyd wneud cysylltiadau rhwng y testun gosod yn y gyfrol *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* neu'r testun sydd yn yr adnodd *Branwen Ferch Llŷr* ar wefan adnoddau CBAC adnoddau.cbac.co.uk â diweddariad o'r chwedl gyfan.

[45]

Cwestiwn 2

Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun i 2 (a) a'r un modd i 2 (b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

- (a) Disgwylir i ymgeiswyr drafod cefndir y gerdd yng nghyd-destun newid yn y traddodiad nawdd yn y 14 ganrif. Dylent berthnasu'r cefndir i'r dyfyniad dan sylw. Disgwylir iddynt drafod gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gerdd hon, ac nid cerddi eraill gan Dafydd ap Gwilym.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddeall natur cerddi'r bardd a chynnwys elfennau megis y canlynol yn eu hatebion:

- Mae Dafydd ap Gwilym ymhlith y beirdd amlycaf yn y Gymraeg erioed er nad oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol amdano sy'n perthyn i'w oes ei hun.
- Ceir traddodiad yn nodi iddo gael ei eni ym Mrogynin yn ardal Aberystwyth tua 1320 – 1330. Yn y cywydd hwn mae cariad y bardd yn ferch ddiennw sy'n byw mewn tref gastellog ar lan y môr. Dywed wrth yr wylan '*Cyrch ystum caer a chastell*' i geisio '*Eigr o liw ar y gaer lân*'. Nid oes digon o dystiolaeth yn y gerdd i benderfynu pa un o gestyll niferus glan môr Cymru oedd hwn ond awgrymodd D. J. Bowen gastell Aberystwyth a fyddai'n berthnasol i ardal geni'r bardd. Ar y llaw arall, Castell Cricieth oedd dewis Anthony Conran ond does dim dystiolaeth iddo fod yr un o'r ddau ac yn wir dywed Dr Dylan Foster Evans '*nad oes llawer o bwrpas ceisio dyfalu ymhle yn union yng Nghymru yr oedd y 'dinas dethol', neu i ba gastell yr hedfanai'r wylan.*'
- Roedd yn fab i Gwilym Gam ab Gwilym ab Einion.
- Roedd ei deulu yn uchelwyr dylanwadol yn y Deheubarth, ei ewythr, Llywelyn ab Gwilym yn gwnstabl yn y Castell Newydd yn Emlyn ac ar ochr brenin Lloegr.
- Mae'n bosibl mai Llywelyn ap Gwilym a gyflwynodd Dafydd i farddoni ac ef, o bosibl, oedd ei athro barddol.
- Roedd Llywelyn yn berchen ar sawl llys, ac mae'n bosibl mai yno y daeth Dafydd ap Gwilym i gysylltiad ag elfennau o'r cyfandir a ddylanwadodd ar ei waith.
- Bu'n fardd ac yn gyfaill i Ifor ap Llywelyn neu Ifor Hael o Fasaleg.
- Roedd Dafydd ap Gwilym yn un o'r cywyddwyr cynnar. Daeth nawdd y tywysogion i ben a chymerodd yr uchelwyr a swyddogion yr eglwys y cyfrifoldeb o noddi'r beirdd. Gyda hyn, datblygwyd y cywydd, o fesur y traethodl mae'n debyg, a datblygwyd y gynghanedd a Dafydd yn un o'r rhai a wnaeth hyn.
- Cywydd llatai sydd yma. Mae patrwm arbennig i'r cywyddau llatai - enwi'r llatai, ei ddisgrifio a'i ganmol drwy ddyfalu, crefu arno i ddwyn neges at gariad y bardd gan ddisgrifio'i gwlad, sut mae hi'n edrych neu beryglon ar y ffordd a gorffen drwy weddio am nawdd i'r llatai neu ei foli eto. Wrth ddyfalu'r wylan yma mae pwyslais ar ddisgleirdeb a gwynder - '*Unlliw ag eiry neu wenlloer,*' '*dyrnfol heli,*' '*lili môr,*' '*Llythr unwaith lle'th ariannwyd,*' '*Lleian ym mrig llanw môr wÿd.*' Drwy bwysleisio'r rhagoriaethau hyn am yr wylan mae hefyd yn awgrymu'r un rhinweddau yn y ferch.
- Roedd confensiwn tebyg yng ngwaith y Trwbadwriaid o Brofens ond mai eosiaid oedd eu llatai hwy fel arfer.

- Gan fod Dafydd ap Gwilym yn uchelwr ei hun, doedd dim rhaid iddo glera er mwyn ennill bywoliaeth. Dylanwadodd hynny ar themâu ei ganu. Gwelir pwyslais ar natur yn ei gerddi, ac yma defnyddia natur fel rhan ganolog o'r cywydd llatai. Aderyn neu anifail yw'r negeswyr ganddo fel arfer ond nid bob tro. Ymhlith y negeswyr a anfonir gan Ddafydd ap Gwilym mae ehedydd, cyfflog, carw, gwynt ac yma *'yr wylan deg.'*
- Roedd Saunders Lewis yn credu bod pwyslais Dafydd ar natur yn her uniongyrchol i'r ffordd yr oedd beirdd y cyfnod yn rhoi pwyslais ar foli uchelwyr a'u heiddo. Yn hollol i'r gwrthwyneb haerwyd bod y pwyslais ar natur yn dangos dylanwad beirdd gwlad, is eu statws ar Dafydd. Honnodd Dr. John Rowlands bod Dafydd wedi defnyddio'r farddoniaeth draddodiadol Gymraeg a'r syniadau oedd ynghlwm wrthi fel delwedd fawr yn ei ganu serch a'i ganu natur. Cyfeiriodd Syr Ifor Williams hefyd at *'ganu'r werin Galan Mai'* fel ffynhonnell bosibl i rai o'r pethau a geir yn ei ganu. Byddai sylw i natur yn un o'r pethau hyn.
- Thema bwysig arall gan Dafydd yw serch. Cyfuna'r ddwy thema yn y cywydd llatai hwn. Awgrymwyd bod y beirdd is eu gradd - y glêr - wedi dylanwadu ar Ddafydd ap Gwilym o ran y canu serch, ynghyd â rhai o'r Gogynfeirdd fel Hywel ab Owain Gwynedd. Sonia'r Athro Gwyn Thomas sut mae ysgolheigion fel Theodor M Chotzen a Syr Ifor Williams yn gweld dylanwadau o'r cyfandir yn ogystal, fel y Trwbadwriaid, beirdd o Brofens, y Trwferiaid a'r ysgolheigion crwydrol. Mae'r ddau fath cyntaf o feirdd yn enwog am eu serch cwrtais - *'Corff eu canu ydoedd mawl di-ben-draw i brydferthwch a rhinweddau'r arglwyddes, llesmeirio bron os codai hi ei llaw arnyn nhw a magu gwayw serch.'* Mae cwpledi fel *'... dywaid na byddaf, / Fwynwas coeth, fyw onis caf.'* Ac *'Oni chaf fwynaf annerch, / Fy nihenydd fydd y ferch.'* yn awgrymu'r serch cwrtais. Mae hefyd yn canu clodydd y ferch am ei phrydferthwch drwy ei chymharu ag Eigr, mam Y Brenin Arthur, oedd yn enwog am ei harddwch - *'Eigr o liw ar y gaer lân.'* Dywed na *'charawdd / Na Merddin wenithfin iach, / Na Thaliesin ei thlysach.'* Defnyddia gyfansoddeiriau canmoliaethus - *'Rhagorbryd rhy gyweirbropr'* a hon, yn ôl y bardd, yw'r *'ddyn lanaf o Gred'*. Eto, pwysleisia Dr Dylan Foster Evans na ellir profi pa ddylanwadau uniongyrchol oedd ar y bardd.
- Canai i ddwy ferch yn arbennig – Morfudd a Dyddgu. Roedd Morfudd yn wraig briod a honnir iddi fod yn wrthrych serch mewn tua 90 o gerddi Dafydd. Ei gŵr oedd un a lisenwid 'Y Bwa Bach'. Ceir tystiolaeth hanesyddol mewn cofnodion cyfreithiol fod dyn o'r enw 'Y Bwa Bach' wedi byw yn ardal Aberystwyth. Mae Syr Ifor Williams yn awgrymu mai teipiau o ferched oedd Morfudd a Dyddgu, ond dadleua Syr Thomas Parry eu bod yn gymeriadau o gig a gwaed. Awgrymwyd mai Morfudd yw'r ferch yma. Eto, disgrifir y ferch hon *'dan gopr'* sy'n awgrymu gwallt o liw copr, tra mai gwallt melyn oedd gan Morfudd yn draddodiadol.
- Awgrymir Ofydd, y bardd Lladin, fel dylanwad arall ar Ddafydd.
- Roedd Dafydd ap Gwilym yn rhan o'r traddodiad ond hefyd yn wahanol iddo gan ei fod o'n uchelwr ei hun. Dywed Gwyn Thomas amdano: *'Mae Dafydd ap Gwilym yn mynnu lle iddo'i hun yn hanes ein barddoniaeth, a hynny, nid am ei fod o'n sefyll o'r naill du i'r traddodiad ond am fod ei bersonoliaeth a'i athrylith fel sblash llachar o baent yn ei ganol o.'*
- Cynnig Dr Dylan Foster Evans ddehongliad posibl sy'n dangos agwedd Dafydd ap Gwilym tuag ar goncwest y Saeson yn ei gyfnod. Noda'r ysgolhaig *'bod y cestyll yn fynegiant ymarferol a symbolaidd'* o'r goncwest. Dywed ymhellach *'gallwn ddarllen rhwystredigaeth y bardd ynghylch y ferch yn y castell fel mynegiant o rwystredigaeth ehangach fod y cestyll Seisnig yn cadw'r Cymry rhag perchnogi grym gwleidyddol yn eu gwlad eu hunain.'*

	AA2 – Ymateb i destun
12 - 15	<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig • arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
10 - 11	<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol • arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
8 - 9	<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau addas
5 - 7	<ul style="list-style-type: none"> • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd a'u cyflwyno'n gywir • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • defnyddio dyfyniadau
3 - 4	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y bardd a'r gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol • ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun • cyflwyno rhai syniadau • dyfynnu'n achlysurol
0 - 2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.

(b) **Arddull y bardd**

[15]

Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn:

- cynllunio atebion trefnus a chydlynol
- defnyddio dyfyniadau o'r gerdd yn eu hatebion er mwyn dadansoddi, yn ystyrllon, sut y mae'r bardd yn trosglwyddo'i weledigaeth a thrwy wneud hynny werthfawrogi arddull y dyfyniad
- gallu cyfeirio at rai o'r nodweddion arddull a throadau ymadrodd hyn a **manylu ar eu heffeithiolrwydd:**
- Awdl a geir yma gyda'r rhan fwyaf o'r gerdd yn cyfateb yn fras i'r mesur sy'n cael ei alw yn **Gyhydedd Naw Ban** yn y Gramadegau Barddol. Mae'n cynnwys llinellau o wyth, naw neu ddeg sillaf. Nodwedd arall yw bod saib naturiol, neu orffwysfa ym mhob llinell, fel arfer bedair sillaf cyn diwedd y llinell fel '*Y bore dyw Sadwrn, / cad fawr a fu.*'
- Mae'r **odl** yn amrywio, weithiau fesul cwpled '-ydd,' ac weithiau'n cael eu cynnal dros chwe neu saith llinell e.e. '-ydd' ac '-awd'. Mae'r lled odl neu Odl Wyddelig yn fodd o gynnal yr odl ymhellach gyda '*wynebawd*' yn odli â '*gymwyawg*', ac '*ymyl*' a '*wyr*' gyda '*mynydd*'.
- Newidir y mesur i adlewyrchu'r **newid yn yr awyrgylch** ar ddiwedd y gerdd gyda llinellau byrrach ond yn cynnal yr odl yn yr un modd. Cyfeiria'r Athro Marged Haycock at y llinellau hyn - '*Rhag Argoed Llwyfain / bu llawer celain; / rhuddai frain ryfelwyr*' fel y Traeanog. Daw hwn cyn dychwelyd at brif fesur y gerdd yn y cwpled olaf. Mae'r amrywio yn cryfhau newid o ran tempo ac yn '*caniatáu effaith lenyddol ysgytwol.*'
- Mae un hanner o'r uchelwr **delfrydol** yma, sef yr ymladdwr dewr sy'n fodlon ymladd i amddiffyn ei bobl.
- Gwelir yr ymladdwr yn y **trosiad** a ddefnyddir i ddisgrifio Owain, - '*dwyrain ffosawd*'. Cadarnheir ei ffyrnigrwydd mewn trosiad arall - '*gymwyawg / lew*'. Os mai 'llew' sydd dan sylw yma, awgrymir ei allu i ymosod ac amddiffyn ei bobl, a chadarnheir ei safle drwy gymharu Owain â brenin y goedwig a phennaeth yr anifeiliaid yn ôl trefn Cadwyn Bod. Er hynny, mae'r trosiad hwn yn drosiad mwys gan y gallai fod yn dreigladd o 'glew' sydd eto'n golygu'r un dewr.
- Cyflëir erchylltra rhyfel gyda'r **topos** '*rhuddai frain ryfelwyr*'. Mae'n ddarlun cignoeth o'r brain (aderyn du sy'n addas i gyfleu marwolaeth) yn pigo cyrff y milwyr, nes coch i yn y gwaed. Mae'n ddelwedd gyffredin yn y canu cynnar ac yn pwysleisio mai'r un yw ein tynged ni oll yn y diwedd. Pwysleisir yr erchylltra ymhellach gyda'r **cyflythrennu** cadarn - '*rhuddai frain ryfelwyr.*'
- Deuai Owain o linach anrhydeddus, a chadarnheir hynny drwy'r pwysigrwydd a roir i'w **achau** wrth ei alw'n '*[g]jenau Coel,*' cyfeiriad at ei hynafiad, Cenau ap Coel Godebog neu Coel Hen.
- Mae'r gerdd hon yn gerdd **ddramatig**. Mae Taliesin wedi cynnwys **deialog** yma sy'n beth anghyffredin iawn yn y cerddi cynnar. Drwy wneud hyn mae fel petai'r bardd yn ein trosglwyddo i ferw paratoi ar gyfer brwydr. Gwneir hynny yn arbennig yn llinellau olaf y dyfyniad wrth ddyfynnu geiriau o anogaeth Urien i'w filwyr –
"*dyrchafwn eiddoedd odduch mynydd
ac amborthwn wyneb odduch ymyl.*"

- Gwêl Saunders Lewis debygrwydd yma â rhai cerddi epig Lladin, fel Gwaith Virgil.
- Mae Taliesin yn **ailadrodd cyfres o ferfau gorchmynnol** - “*dyrchafwn . . . amborthwn . . . dyrchafwn . . . a chyrchwn*,” gan gyrraedd uchafbwynt gyda “*lladdwn*”. Dyma eiriau fyddai wedi sicrhau cefnogaeth a ffyrnigrwydd wrth i’w fyddin ymosod ar yr Eingl. Geilw’r Athro Marged Haycock yr ailadrodd fel ‘*crescendo o wrthwynebiad*’.
- Awgrymir ei ddirmyg tuag at y Saeson yn y defnydd o’r **llysenw**, Fflamddwyn.
- Un dechneg a ddefnyddir i awgrymu mor eang yw llw Owain ac Urien yw **rhestru enwau llefydd**:

‘Dyfn o Argoed hyd Arfynydd.’

Mae’r **cyflythreniad** ‘*o Argoed hyd Arfynydd*’ yn fodd o glymu’r ddau begwn ynghyd.

- Awgrymir ffyrnigrwydd a hyd yr ymladd â’r **gwrthgyferbyniad** ‘*o’r pan ddwyre haul hyd pan gynnu*’.
- Mae **cyferbyniad** trawiadol rhwng y gair ‘*adrelwis*’ a’r gair ‘*atebwys*’. Gwelwn eto awgrym o ffyrnigrwydd Fflamddwyn gyda’r defnydd o’r ferf ‘*adrelwis*’, ond yn nefnydd y bardd o’r gair ‘*atebwys*’, cawn ddarlun o Owain ab Urien fel arweinydd cadarn, tawel a hyderus.
- **Sŵn a rhexreg** a glywir yn rhan gyntaf y gerdd, ond **tawelwch** a glywir yn y rhan olaf. Dyma un o’r cyferbyniadau mwyaf yn hanes ein llenyddiaeth ni. Mae mor frawychus, yn uniongyrchol ac mor ingol ei effaith:

*‘Rhag Argoed Llwyfain
bu llawer celain.’*

- Rhoir sylw i **sŵn** y geiriau gan mai cerdd i’w datgan ar lafar fyddai hi.
- **Ailadroddir** y negydd, ‘*nid*’, er mwyn pwysleisio’r ffaith na fydd Owain yn trosglwyddo gwystlon. Cryfheir yr effaith drwy ddefnyddio **ffurfiau’r ferf** yn y gorfennol a’r presennol:

‘Ni ddoddynt, nid ydynt, nid ynt barawd.’

Awgrymir na fydd Owain yn fodlon ildio. Pwysleisir hyn gyda’r **odl fewnol** ‘*-ynt*’. Defnyddir yr **odl fewnol**, ‘*-ain*’ i bwysleisio’r gystadleuaeth rhwng Owain a lluoedd yr Eingl yn y dwyrain yn “*Owain, dwyrain ffosawd*” ond nid oes amheuaeth ym meddwl y bardd pwy sy’n trechu.

- Wrth ddefnyddio **cytseiniaid** amlwg wrth ddisgrifio Fflamddwyn ‘*fawr drybestawd*’ awgrymir gŵr llawn sŵn ac ymffrost. Mae cyfres o gytseiniaid sy’n cael eu hateb yn y llinellau ‘*lew cyn as talai o wystl nebawd*’ ac ‘*O bydd ymgylfarfod am gerennydd*’ yn apelio i’r glust. Llinellau persain eraill yw ‘*rhuddai frain ryfelwyr. / A gwerin a grysiwys gan hynefydd: / armâf i flwyddyn nad wy cynnydd*’ sy’n cloi’r gerdd yn gryf.
- Ceir **cymeriad llythrennol** ‘*A*’ i gysylltu gofynion Fflamddwyn ac ‘*a / ac*’ eto i gysylltu cynghorion Urien wrth geisio tanio’i wŷr i’r frwydr.
- Mae amrywiaeth tempo yn y darn hwn. Cychwyn yn gyflym â’r paratoi. Ceir mwy o hamdden yng nghwestiwn Fflamddwyn ac ateb Owain, ond eto cyflymir drwy’r **goferu** yn y llinell “*byddai gymwyawg / lew*”.
- Mae **rhestru’r berfau gorchmynnol, y cymeriad geiriol** ‘*a / ac*’ ac **ailadrodd** ‘*odduch*’ yn adeiladu tensiwn yn ail hanner y gerdd. Gwelir anogaeth Urien yn cyrraedd uchafbwynt gydag ‘*a lladdwn ac ef a’i gyweithydd*’. Byddem yn disgwyl cael disgrifiad manwl a dramatig o’r ymladd ond cyflwynna’r bardd ni â’r annisgwyl drwy newid tempo, mesur ac awyrgylch a disgrifio’r tawelwch wedi’r frwydr mewn mesur gwahanol sy’n

cynnwys llinellau byrrach. Mae'r cynildeb a geir yma yn drawiadol, ac yn ddisgynneb effeithiol, gan nad dyma oeddem yn ei ddisgwyl. Geilw yr Athro Marged Haycock y newid mesur yma yn *'syml ac ymataliol'*. Sonia'r Athro Gwyn Thomas yntau am *'ymatal cyhyrog y bardd'* ar ddiwedd y gerdd.

- **Awyrgylch ddramatig, gyffrous** a geir yn y gerdd gan fwyaf. Mae'r gwrthdaro rhwng Urien a'i fab, Owain ar y naill law a'r Eingl ar y llaw arall yn creu gwrthdaro rhyngddynt a thrwy hynny cawn gip ar bersonoliaeth yn ogystal â mawredd Urien ac Owain.
- Mae **elfen storiol, naratif** yma. Dywed yr Athro Marged Haycock fod hyn *'yn cadarnhau'r teimlad fod y bardd wedi bod yn bresennol ei hun; mae'r manylion am y lle a'r amser a hyd y frwydr hefyd yn ategu ei fod wedi gweld y cyfan â'i lygaid ei hun ar y dydd Sadwrn tyngedfennol hwnnw.'*
- Mae'r **gwrthgyferbyniad** a geir ar ddiwedd y gerdd hefyd yn awgrymu **dwy ochr i ryfel**. Yn ogystal â'r *'nad wy cynnydd'* rhaid ystyried y *'llawer celain'* a'r brain yn cochi yng ngwaed y milwyr. Dyma'r pris sy'n rhaid ei dalu am y brwydro.

	AA2 – Ymateb i destun
12 - 15	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol • defnyddio dyfyniadau'n effeithiol
10 - 11	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth • datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol
8 - 9	<ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus • defnyddio dyfyniadau addas
5 - 7	<ul style="list-style-type: none"> • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth • datblygu ac ehangu ar y prif syniadau • defnyddio dyfyniadau
3 - 4	<ul style="list-style-type: none"> • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi • cyflwyno rhai syniadau • dyfynnu'n achlysurol
0 - 2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer 2 (a) a 2 (b). [15]

AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig	
12 – 15	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw • saernïo'r gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc • arddangos cyfoeth o adnoddau iaith • meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen
10 – 11	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw • saernïo'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc • arddangos adnoddau iaith da • arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen
8 – 9	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir • cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc • arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith • gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen
5 – 7	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon • dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno'r gwaith • arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith • arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen
3 – 4	<ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol • dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno'r gwaith • defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas • arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen
0 – 2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig.

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymgeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.

Asesiad Synoptig

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 2 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith ysgrifenedig. [45]